| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Tachwedd 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd David Smith / Alan Smith a Graham Boase** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Isobel Bourke-Bennett** |
| **Teitl:** | **Diweddariad Prosiect Rheoleiddio Meysydd Carafannau yn Well** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn yr un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ym mis Gorffennaf 2015. Bydd yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yn hyn a’r camau nesaf a gynlluniwyd ar gyfer y prosiect.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth am gynnydd ar y prosiect hwn ers yr adroddiad pwyllgor archwilio blaenorol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar gynnydd y prosiect hyd yma ac yn cytuno ar y camau nesaf a gynlluniwyd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

Yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf 2015 penderfynodd yr Aelodau i ymestyn cwmpas y prosiect. Gofynnodd yr Aelodau i ddadansoddiad manylach gael ei wneud (y tu hwnt i'r astudiaeth beilot gychwynnol o 5 safle) o raddfa bosibl meddiannaeth breswyl heb awdurdod o garafannau gwyliau yn y Sir. Y gobaith oedd y gallai’r dadansoddiad ehangach hwn wedyn ddarparu mwy o eglurder o ran y goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill ar y Sir, galluogi tynhau gweithdrefnau gwasanaeth i reoli mynediad at wasanaethau'r Cyngor a rhoi sylfaen dystiolaeth fwy cadarn er mwyn galluogi gwell rheoleiddio.

Mae’r adroddiad, felly, wedi ei rhannu'n dair rhan. Yn gyntaf, mae'n tynnu sylw at y **sefyllfa bresennol** yn y Sir drwy ddadansoddiad o gasglu data gwasanaeth, gan amlygu goblygiadau ariannol posibl. Yn ail, mae'r adroddiad yn awgrymu ffyrdd y gallwn **fonitro ceisiadau mynediad yn y dyfodol** gan drigolion carafannau yn well, ac yn manylu ar y **dewisiadau rheoliadol** sydd ar gael i roi sylw i achosion o dorri rheolau cynllunio a thrwyddedu. Yn olaf, mae'r adroddiad yn crynhoi'r **camau nesaf a argymhellir** ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd.

**Y Sefyllfa Bresennol**

***Casglu data gwasanaeth***

Mae data wedi'i gasglu’n llwyddiannus o bob gwasanaeth mewnol perthnasol. Gweler **Atodiad 1** am adroddiad manwl ar y data a gasglwyd o bob system gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae'r data a gasglwyd o bob system gwasanaeth wedi datgelu’r canlynol:

- **Cofrestr Etholwyr -** 60 o garafannau gwyliau wedi'u cofrestru ar y gofrestr etholiadol ar hyn o bryd mewn 12 safle yn y sir.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** - 7 achos yn derbyn sylw gan y gwasanaethau cymdeithasol mewn 4 safle carafannau gwyliau yn y sir ar hyn o bryd.

- **Addysg -** 20 o blant wedi'u cofrestru ar hyn o bryd mewn ysgolion yn Sir Ddinbych o 9 safle carafannau gwyliau yn y sir.

- **Cludiant Teithwyr -** Mae mwy na 295 o docynnau rhatach yn weithredol ar 24 o safleoedd carafannau gwyliau yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

- **Budd-dal Tai -** 21 o hawliadau (6 llwyddiannus, 15 yn aflwyddiannus) ar gyfer budd-dal tai o safleoedd carafannau gwyliau yn Sir Ddinbych dros y 5 mlynedd diwethaf.

- **Tai Cyngor** - 36 o ymgeiswyr o 11 o safleoedd carafannau gwyliau yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd ar y rhestr aros am dai. 40 o ymgeiswyr wedi eu cartrefu’n flaenorol o 11 o safleoedd carafannau gwyliau dros y 10 mlynedd diwethaf.

- **Trwyddedu** (h.y. trwyddedu tacsis) - 6 o drwyddedau tacsis wedi eu dyrannu i 3 safle carafannau gwyliau yn Sir Ddinbych dros y 3 blynedd diwethaf.

Trwy gydol y broses o gasglu a dadansoddi data nodwyd bod y rhan fwyaf o'r ceisiadau am wasanaethau wedi cael eu gwneud gan y safleoedd carafannau gwyliau mwy o faint yn y sir; gyda chyfran sylweddol yn cael ei wneud yn benodol o Safleoedd Parciau Gwyliau Lyons (gweler **Atodiad 4**).

***Goblygiadau Ariannol***

Ceir manylion llawn am y goblygiadau ariannol sy’n gysylltiedig â'r amcangyfrif o'r nifer o bobl sy'n byw yn anghyfreithlon mewn carafannau gwyliau yn y sir ar hyn o bryd yn **adran 3.2. o Atodiad 1.**

Ar y cyfan, mae ein cyfrifiadau ariannol yn datgelu bod yna leiafswm diffyg amcangyfrifedig o **£86,000** bob blwyddyn ar gyfer taliadau treth y cyngor, oherwydd y lefelau presennol o feddiannaeth breswyl anghyfreithlon o garafannau gwyliau. Yn ogystal, mae’n bosibl y collir allan ar leiafswm amcangyfrifedig o **£204,000** y flwyddyn yn y Grant Cynnal Refeniw (GCR) o ganlyniad i’r ffaith nad yw preswylwyr carafannau’n cael eu cofnodi'n gywir o fewn y cyfrifiad.

## Cynlluniau Monitro yn y Dyfodol

Fel y gwelwch o'r canllawiau meini prawf cymhwyster yn **Atodiad 5,** yn y mwyafrif o achosion ni chyfyngir ar fynediad i wasanaethau'r cyngor o ran preswyliad, h.y. nid oes angen i unigolyn fod yn breswylydd parhaol o fewn y sir er mwyn bod yn gymwys i fynediad i nifer o wasanaethau allweddol y cyngor. Fel y cyfryw, nid ydym yn gallu gwrthod mynediad i'r garfan hon i wasanaethau'r cyngor ac mae'n rhaid yn hytrach dibynnu ar ddatblygu technegau monitro mwy cywir a chymryd camau yn seiliedig ar achosion o dorri amodau cynllunio a thrwyddedu (gweler yr adran ganlynol).

Credir mai wrth wella a pharhau i fonitro'r defnydd preswyl o garafannau gwyliau yn y sir, y gall hyn annog hunan-reoleiddio ymysg perchenogion safleoedd carafannau; gan leihau'r tebygolrwydd o garafannau gwyliau yn cael eu defnyddio fel preswylfa barhaol.

Un mater a amlygwyd yn ystod y broses o gasglu data oedd yr anhawster a achosir gan ddiffyg UPRNs a gofnodwyd o fewn rhai systemau gwasanaeth, ynghyd â diffyg cysondeb yn y fformat a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd ar ddata o'r systemau hyn. Mae'r materion hyn wedi amharu ar ddatblygiad system awtomatig ar gyfer cynhyrchu adroddiadau ar ddefnydd y gwasanaeth.

Er mwyn i'n technegau monitro wella, yna mae angen gwneud gwaith i reoleiddio gweithdrefnau ar gyfer mewnbynnu cyfeiriadau carafannau i mewn i systemau gwasanaeth. Fel y cyfryw datblygwyd canllawiau cofnodi data ar gyfer cyfeiriad carafannau (gweler **Atodiad 6).**

Yn ogystal, mae gwaith wedi cael ei wneud i gasglu mapiau safle carafannau a chyfeiriadau carafannau unigol er mwyn datblygu rhestr gynhwysfawr o gyfeiriadau carafannau yn y Rhestr Tir ac Eiddo Lleol. Hyd yma cysylltwyd â phob un o'r 93 o safleoedd **(gweler Atodiad 2)** a llwyddwyd i gasglu gwybodaeth mapiau/cyfeiriad ar 29 o safleoedd (gweler **adran 3.5 o Atodiad 1).** Bydd camau nesaf y prosiect yn cynnwys dechrau'r broses o fewnbynnu'r cyfeiriadau hyn i mewn i'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

## Opsiynau Rheoleiddio

Mae'r gwaith a wnaed i ganfod graddfa meddiannaeth breswyl posibl o safleoedd carafannau gwyliau yn y Sir yn amlygu rhai safleoedd "problem" posibl. Mae hefyd yn amlwg bod yna lawer o safleoedd carafannau gwyliau sy'n cael eu rhedeg yn dda yn y Sir sy'n defnyddio meini prawf gwerthu caeth i atal defnydd heb awdurdod.

Bydd sefydlu strategaeth fonitro gorfforaethol a fydd yn tynnu sylw at ymholiadau mynediad i wasanaeth o safleoedd carafannau gwyliau yn y dyfodol yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i fynd i'r afael ag achosion posibl o dorri rheolau cynllunio a thrwyddedu yn y dyfodol.

Gan ystyried yr uchod nawr bwriedir cynhyrchu Llawlyfr Gweithdrefnau Rheoleiddio. Cynigir bod y ddogfen hon yn cael ei rheoli gan y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a bydd yn ceisio gwneud y canlynol:

- Cydlynu pwerau cynllunio a thrwyddedu mewn un ddogfen er mwyn galluogi swyddogion o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i ddilyn

gweithdrefnau safonol ar gyfer plismona parciau carafannau gwyliau yn effeithiol.

- Nodi'n glir yr opsiynau rheoliadol sydd ar gael, a'r ôl-effeithiau cysylltiedig, gan ystyried y dystiolaeth a gasglwyd o bob carafán a safle.
- Galluogi i safleoedd risg uchel gael eu targedu'n gyflym gyda gweithdrefnau gorfodi safonol yn cael eu gweithredu.

Mae swyddogion yn ceisio cytundeb y Pwyllgor i'r bwriad uchod ar gyfer Llawlyfr Gweithdrefnau Rheoleiddio. Mae swyddogion yn bwriadu cyflwyno'r Llawlyfr Gweithdrefnau yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn y dyfodol lle gellir cytuno ar y cynnwys.

**Argymhellion**

- Defnyddio'r gronfa ddata cyfeiriadau corfforaethol a system fonitro newydd i fynd i'r afael â meddiannaeth breswyl heb awdurdod posibl o garafannau gwyliau yn y dyfodol drwy reolaethau cynllunio a thrwyddedu ar y cyd.
- Datblygu gweithdrefnau a dogfennau safonol ar gyfer monitro, ymchwilio a gorfodi safleoedd.
- Datblygu strategaeth ragweithiol ar gyfer mynd i'r afael â'r safleoedd mwy sy'n "broblem" yn y Sir lle mae tystiolaeth o anheddiad preswyl heb awdurdod yn fwyaf cyffredin. Bydd angen i'r strategaeth hon sefydlu cyfnodau amser priodol lle na ellir ystyried bod gweithredu yn briodol ar ôl hynny.
- Sefydlu cysylltiadau pellach gyda Chymdeithas Parc Gwyliau a Chartref Prydain (BHHPA) er mwyn creu gweithdrefnau rheoli parc ar gyfer pob safle.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli'r ffordd y caiff meysydd carafannau eu defnyddio yn cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol:-

- Datblygu'r economi leol
- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid yw'r prosiect yn cael ei ystyried i fod angen unrhyw staff neu adnodd cyllid ychwanegol ar hyn o bryd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y prosiect hwn sy'n nodi mai hil (sipsiwn a theithwyr yn benodol), oedran ac anabledd yw'r nodweddion a ddiogelir sy'n debygol o gael eu heffeithio yn bennaf **(gweler Atodiad 7).** Fodd bynnag, mae hon yn cael ei hystyried yn ddogfen ddeinamig a fydd yn parhau i gael ei hadolygu wrth i'r prosiect ddatblygu.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau trwy gydol datblygiad y prosiect hwn. Ymgynghorwyd â phob gwasanaeth hefyd ar gynnwys eu hadrannau perthnasol o'r adroddiad yn **Atodiad 1** ac yn ystod datblygiad y meini prawf cymhwyster yn **Atodiad 5.**

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
*Amh.*

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Mae nifer o risgiau wedi'u nodi ar gyfer y prosiect sydd i'w gweld yng nghofrestr risg y prosiect yn **Atodiad 8.**

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi polisi'r Pwyllgor Archwilio.